**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

25 Hydref 2019

Annwyl Nick,

Diolch am gytuno i ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 3 Hydref pan fydd yn craffu ar eich adroddiad blynyddol 2018/19.

Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch gytuno i ddarparu dadansoddiad pellach o natur y cwynion a ddaeth i law am wasanaethau Meddygon Teulu a gwasanaethau deintyddol.

Yn dilyn y sesiwn, cytunwyd hefyd i ni ofyn am ragor o wybodaeth. Yn gyntaf, a allech chi egluro ymhellach y berthynas rhwng y gweithdrefnau cwynion enghreifftiol y mae'ch swyddfa'n eu datblygu o dan eich pwerau newydd a'r fframwaith cwynion statudol presennol, a sut y bydd y berthynas hon yn gweithio. Efallai eich bod yn cofio bod y Pwyllgor wedi ystyried y mater hwn yn fanwl yn ystod gwaith craffu cyfnod un o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Yn benodol, pryderon y GIG ynghylch sut y byddai unrhyw weithdrefnau enghreifftiol yn rhyngweithio â'r rheoliadau Gweithio i Wella.


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Yn ystod y sesiwn hefyd, trafodwyd y cynnydd yn nifer y cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad. A allech chi rhagor o fanylion am natur y cwynion a gafodd eu cau ar ôl yr ystyriaeth gychwynnol. Nodwn fod yr adroddiad blynyddol yn rhestru natur y cwynion a ddaeth i law ynghylch y Cod Ymddygiad, ond nid yw’n dadansoddi natur y cwynion a gafodd eu cau ar ôl yr ystyriaeth gychwynnol. Teimlwn y byddai’r manylion ychwanegol hyn yn ddefnyddiol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir



John Griffiths AC

Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.